Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen TP6 (i)

Adroddiad rhoddion chwarterol cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig

Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon:

Mae'n rhaid i'r person cyfrifol gwblhau'r adroddiad hwn a'i ddychwelyd i ni.

Gallwch gwblhau a chyflwyno eich cofnod gwario ar-lein gan ddefnyddio CPE ar-lein, ein system gyflwyno ar-lein. Mae hyn yn gyfleus gan y gallwch adolygu eich adroddiad unrhyw bryd cyn ei gyflwyno ac mae cymorth ar gael os oes ei angen arnoch. Mae'n rhaid i chi gael cyfrif defnyddiwr i wneud hyn.

Fel arall, gallwch lenwi'ch adroddiad cyn y bleidlais o hyd gan ddefnyddio'r ffurflen hon a'i chyflwyno i ni drwy e-bost neu'r post.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i roi'r wybodaeth a nodir ar y ffurflen, heblaw lle nodir ei fod yn ddewisol.

Amserlen adrodd cyn y bleidlais

Yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol Senedd y DU, mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cofrestredig sy'n bwriadu gwario mwy na £20,000 yn Lloegr, neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gyflwyno adroddiadau rhoddion cyn y bleidlais i gefnogi ymgyrchu a reoleiddir.

Dylech ddarllen ein canllawiau ar adrodd cyn y bleidlais cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Os ydych wedi cofrestru gyda ni, ond wedi datgan i ni nad ydych yn bwriadu gwario mwy na'r trothwyon uchod, nid oes rhaid i chi gyflwyno adroddiadau am roddion. Does dim angen i chi gyflwyno adroddiad ar gyfer cyfnod penodol os nad oes rhoddion adroddadwy yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae dau gam i adrodd cyn y bleidlais:

- O gychwyn y cyfnod cyn y bleidlais ar 17 Rhagfyr 2023 hyd nes y diwrnod y caiff y Senedd ei diddymu, mae'n rhaid i chi adrodd rhai rhoddion yr ydych wedi'u **cael a'u derbyn** neu eu **dychwelyd** bob tri mis. Rydym yn galw'r rhain yn 'adroddiadau chwarterol cyn y bleidlais'.

- O ddiddymu'r Senedd nes y diwrnod pleidleisio, mae'n rhaid i chi gyflwyno adroddiadau rhoddion wythnosol yr ydych wedi'u **cael** sydd dros werth penodol. Rydym yn galw'r rhain yn 'adroddiadau wythnosol cyn y bleidlais'.

Nodwch fod **y ffurflen hon yn addas ar gyfer cyflwyno adroddiadau chwarterol cyn y bleidlais yn unig**. Mae gofynion adrodd gwahanol yn berthnasol ar gyfer adroddiadau wythnosol cyn y bleidlais. Mae'r ffurflen ar gyfer adroddiadau rhoddion wythnosol cyn y bleidlais i'w chael yma.

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno adroddiadau chwarterol o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfnodau adrodd a'r dyddiadau cau ar gyfer derbyn yr adroddiadau chwarterol.

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau cyflwyno'r adroddiad cyn y bleidlais
17 Rhagfyr 2023 – 16 Mawrth 2024	15 Ebrill 2024
17 Mawrth 2024 – 29 Mai 2024	28 Mehefin 2024

Mae adrodd wythnosol cyn y bleidlais yn dechrau ar y diwrnod diddymu sef 30 Mai 2024. Gweler ein canllawiau uchod am yr amserlen wythnosol ar gyfer adrodd cyn y bleidlais.

Nodiadau eglurhaol

Rhan 1 Manylion ymgyrchydd nad yw'n blaid

Rhowch y manylion canlynol:

- enw'r ymgyrchydd nad yw'n blaid gofrestredig
- dyddiadau'r cyfnod adrodd cyn y bleidlais y mae'r ffurflen hon yn ei gwmpasu
- eich cyfeirnod cofrestru. Mae hwn yn dechrau gyda'r rhagddodiad 'TP' ac fe'i darparwyd i chi wrth gofrestru. Fel arall, mae ar gael o'r gofrestr o ymgyrchwyr yma.

Rhan 2 Datganiad a llofnod

Mae'n rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan y person cyfrifol ar gyfer yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, sef:

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug gan wybod hynny neu yn fyrbwyll.

- yn achos unigolyn, y person hwnnw
- yn achos sefydliad neu gorff, y person a gofrestrwyd fel y person cyfrifol gyda'r Comisiwn Etholiadol

Rhan 3 Rhoddion a Dderbyniwyd

Mae'n rhaid i fanylion y rhoddion canlynol yr ydych wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod adrodd perthnasol gael eu hadrodd yn yr adroddiad chwarterol:

- rhodd neu gydgrynhoad o roddion yr ydych wedi'u derbyn gan un ffynhonnell sy'n gyfanswm o fwy na £7,500
- rhodd neu gydgrynhoad o roddion yr ydych wedi'u derbyn sy'n dod i gyfanswm o fwy na £1,500 sy'n dod gan ffynhonnell yr ydych wedi adrodd i ni yn flaenorol mewn adroddiad chwarterol blaenorol
- unrhyw roddion o fwy na £500 gan ffynonellau nas caniateir
- unrhyw roddion o fwy na £500 gan ffynonellau anhysbys

Ar gyfer pob rhodd a dderbyniwyd, rhowch yr wybodaeth a restrir isod.

Manylion rhoddwr

Enw llawn a chyfeiriad

Rhowch enw llawn a chyfeiriad y rhoddwr a wnaeth y rhodd. Ni chaiff cyfeiriadau rhoddwyr unigol eu cyhoeddi ar y gofrestr o roddion.

Os yw'r rhoddwr yn bleidleisiwr sydd â chofnod anhysbys ar y gofrestr etholiadol, peidiwch â darparu cyfeiriad, ond yn hytrach

ticiwch i gadarnhau eich bod wedi gweld tystiolaeth bod ganddynt gofnod o'r fath. Bydd tystiolaeth ar ffurf tystysgrif cofrestriad dienw. Mae'n rhaid i chi gyflwyno copi o'r dystysgrif gyda'ch adroddiad.

Os cymynrodd yw'r rhodd, mae'n rhaid i chi roi'r cyfeiriad olaf lle cofrestrwyd y rhoddwr i bleidleisio.

Math o roddwr

Nodwch fath pob rhoddwr, gan ddewis un o'r categorïau isod.

- unigolyn a gofrestrwyd ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar neu ddiwydiannol a darbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig yn y DU sydd wedi lleoli ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- Gan bwy y gallwch chi dderbyn rhoddion?

Os ydych yn gwmni cofrestredig, rhaid i chi gynnwys rhif cofrestru'r cwmni a chyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fel y'i cofnodwyd ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau. Os ydynt yn bleidleisiwr cofrestredig, efallai y bydd o ddefnydd i chi nodi rhif etholiadol y person, fel cofnod o'ch gwiriad.

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan fathau penodol o ymddiriedolaethau. Cysylltwch â ni am gyngor ar gadarnhau p'un a ganiateir rhoddion gan ymddiriedolaethau ac adrodd amdanynt.

Ni ddylech dderbyn rhoddion gan blaid wleidyddol.

Os ydych wedi derbyn rhodd dros £500 nad yw'n dod o un o'r ffynonellau uchod, neu sydd o ffynhonnell anhysbys, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.

Manylion rhoddion

Rhowch y manylion canlynol ynghylch pob rhodd a dderbyniwyd:

- Rhodd ariannol neu anariannol: nodwch pa fath o rodd
- Gwerth: Os oedd y rhodd yn rhodd ariannol, rhowch y swm a gafwyd mewn arian parod, siec ac ati. Os oedd y rhodd yn un anariannol, rhowch fanylion cyfanswm gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd (gweler ein canllawiau ynghylch Sut ydych yn prisio rhodd?).
- Natur y rhodd nad ydyw ar ffurf arian: Os oedd y rhodd yn rodd anariannol, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gafwyd.
- Dyddiad cael: Nodwch y dyddiad y cafwyd y rhodd.
- Dyddiad derbyn: Nodwch y dyddiad y derbyniwyd y rhodd.
- Ticiwch y blwch i nodi p'un a oedd y rhodd ynnawdd neu'n gymynrodd.

Adran 4 Rhoddion a Wrthodwyd

Cwblhewch yr adran hon gyda manylion unrhyw roddion dros £500 nad oeddech yn gallu eu derbyn, naill ai oherwydd nad oedd y rhoddwr yn ganiataol neu oherwydd nad oeddech yn gallu adnabod y rhoddwr.

Manylion rhoddwr

Enw llawn a chyfeiriad

Rhowch enw llawn a chyfeiriad y rhoddwr nas caniateir. Os nad oeddech yn gallu adnabod y rhoddwr, ticiwch i gadarnhau nad oedd y rhoddwr yn hysbys.

Manylion rhoddion

Ar gyfer pob rhodd a wrthodwyd, rhowch y manylion canlynol:

- Rhodd ariannol neu anariannol: nodwch pa fath o rodd
- Gwerth: Os oedd y rhodd yn rhodd ariannol, rhowch y swm a gafwyd mewn arian parod, siec ac ati. Os oedd y rhodd yn un anariannol, rhowch fanylion cyfanswm gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd (gweler ein canllawiau ynghylch Sut ydych yn prisio rhodd?).
- Natur y rhodd nad ydyw ar ffurf arian: Os oedd y rhodd yn rodd anariannol, rhowch ddisgrifiad o'r nwyddau neu'r gwasanaethau a gafwyd.
- Dyddiad cael: Nodwch y dyddiad y cafwyd y rhodd.
- Dyddiad delio: Nodwch y dyddiad y dychwelwyd y rhodd.
- Sut wnaethoch chi ddelio â'r rhodd:

    - Ar gyfer rhoddwyr anhysbys, disgrifiwch yn fyr sut cafwyd y rhodd, er enghraifft p'un a ddaeth drwy law trydydd parti ar ran rhoddwr anhysbys, p'un a gafodd ei dalu i mewn i gyfrif banc, neu p'un a ddaeth i law ar ffurf arian parod heb unrhyw arwydd o'i ffynhonnell.
- Rhowch fanylion y person/sefydliad y dychwelwyd y rhodd iddynt:
    - Ar gyfer rhoddwyr nas caniateir, dylai'r person hwn fod yr un a gwnaeth y rhodd neu'n berson sy'n gweithredu ar ei ran.
    - Ar gyfer rhoddwyr anhysbys, dylai hyn fod yn fanylion y sefydliad ariannol y'i cafwyd ganddo, neu'r trydydd parti a roddodd y rhodd ar ran y rhoddwr anhysbys. Os nad oedd modd dychwelyd y rhodd, cadarnhewch bod y rhodd wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn i'w dalu i'r Gronfa Gyfunol.
- Ticiwch y blwch i nodi p'un a bod y rhodd yn nawdd neu'n gymynrodd.

Adran 5 Cyfanswm rhoddion eraill dros £500

Nodwch gyfanswm gwerth yr holl roddion a ganiateir rhwng £500 a £7,500 a gawsoch tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, nad oes angen eu hadrodd ar wahân yn adran 3 uchod.

Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Mae'n rhaid i'r person cyfrifol ddychwelyd yr adroddiadau rhoddion chwarterol cyn y bleidlais i ni erbyn y dyddiad cau perthnasol yn yr amserlen uchod.

Gallwch gael cosb os nad ydych yn cyflwyno eich adroddiadau mewn pryd.

Cyflwyno'r ffurflenni ar-lein:

Rydym yn eich annog i gwblhau eich cofnodion a'ch datganiadau ar-lein gan ddefnyddio CPE Ar-lein, ein system gyflwyno ar-lein. Canllawiau ar sut i osod cyfrif ar CPE Ar-lein ar gael yma.

Cyflwyno'ch ffurflen drwy e-bost neu'r post:

Os nad ydych yn cyflwyno eich adroddiad ar-lein, gallwch ei anfon atom drwy e-bost i pef@electoralcommission.org.uk neu drwy'r post i:

Financial Reporting Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Os ydych yn cael problemau yn cyflwyno eich cofnod, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio 0333 103 1928 neu e-bostio pef@electoralcommission.org.uk